



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Diwygio Budd-dal Tai – tai â chymorth

Cynigion ar gyfer newid y ffordd mae
Budd-dal Tai yn cynorthwyo'r rhai sy'n
byw mewn tai â chymorth yn y sector
cymdeithasol a gwirfoddol gyda'u rhent

Gorffennaf 2011

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Waith a Phensiynau drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Gorffennaf 2011

Cm8152

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ar gynigion y Llywodraeth i newid y ffordd y caiff help gyda rhent ei gyfrifo ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tai â chymorth yn y sector cymdeithasol a gwirfoddol. Mae'n ceisio barn pobl er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ein polisiau wrth i ni ystyried aildrefnu'r ffordd y mae Budd-dal Tai yn helpu gyda'r rhenti uwch a wynebir weithiau gan yr henoed a'r rhai ag anabledau. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn gymwys i Gymru, yr Alban a Lloegr.

Yr ymgynghoriad

At bwy yr anelir yr ymgynghoriad hwn

Anelir yr ymgynghoriad hwn yn bennaf at bobl sy'n byw mewn tai â chymorth a'r rhai sy'n cynrychioli eu barn hwy, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud â chomisiynu, cyllido a darparu tai â chymorth sydd â diddordeb yn y ffordd y mae Budd-dal Tai yn helpu eu tenantiaid i dalu eu rhent.

Diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'r Llywodraeth yn cynnig newid Budd-dal Tai ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tai a chymorth yn y sector cymdeithasol a gwirfoddol. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio eich barn er mwyn llywio'r cynllun polisi manwl.

Bydd y ddogfen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndirol i chi am Fudd-dal Tai yn y sector hwn ac yn egluro pam ein bod am ei ddiwygio. Byddwn yn glir ynghylch yr hyn rydym yn bwriadu ei newid, a'r hyn a fydd yn parhau'r un fath. Rydym yn ceisio sefydlu'r prif egwyddorion ar gyfer diwygio yn gyntaf.

Rydym yn egluro'r newidiadau arfaethedig ac yn gofyn am eich barn. Mae'r cwestiynau wedi'u nodi a'u rhestru'n glir ar ddiwedd y ddogfen, lle rydym hefyd yn gofyn a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu.

Crynodeb

1. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gefnogi pobl sy'n agored i niwed, pobl hŷn a phobl anabl i fyw'n annibynnol ac yn egnïol yn y gymuned yn hytrach na byw mewn gofal mwy sefydliadedig. Gall taliadau Budd-dal Tai ar gyfer y grŵp hwn fod yn uwch na'r taliadau ar gyfer y rhai mewn llety prif ffrwd. Fodd bynnag, mae'r rheolau presennol wedi bod ar waith ers canol y nawdegau ac nid ydynt yn cyd-fynd â'r ffordd y darperir gofal personol a chymorth mwyach. Mae'r rheolau hyn wedi mynd yn gymhleth o ran eu gweinyddu a'u deall.
2. Yn achos llawer o'r rhai sy'n byw mewn tai â chymorth a reolir gan ddarparwyr o'r sector cymdeithasol neu wirfoddol dielw neu sy'n eiddo iddynt, seilir eu Budd-dal Tai ar reolau mwy hael.
3. Ystyrir bod y rheolau hyn yn fuddiol i gwsmeriaid ag anghenion penodol ar y cyfan. Targedir yr help ychwanegol hwn ar yr amod bod landlordiaid yn darparu'r gofal neu'r cymorth sydd ei angen ar y tenant. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae llai o landlordiaid erbyn hyn yn ymwneud â diwallu'r anghenion hynny drwy hyrwyddo dewis i unigolion o ran pwy ddylai ddarparu'r gofal neu'r cymorth sydd ei angen arnynt.
4. Mae'n amser felly ailystyried sut y cyfrifir Budd-dal Tai ar gyfer y grŵp hwn. Rydym am ddeall beth sy'n gwneud rhenti yn y sector hwn yn uwch na'r rhai yn y sector rhentu preifat a ph'un a yw'n rhesymol bodloni'r rhenti hyn drwy fudd-dal. Wrth i ni symud tuag at y Credyd Cynhwysol yn 2013, mae angen i ni ystyried sut y gellir talu costau tai â chymorth a ph'un a ddylid eu seilio ar egwyddorion y Lwfans Tai Lleol.
5. Ein her, felly, yw diwygio Budd-dal Tai mewn modd sy'n sicrhau y gall helpu'r bobl hynny ag anghenion tai arbenigol, sy'n aml yn byw mewn tai â chymorth arbenigol neu dai wedi'u haddasu, yn fwy effeithiol. Rydym am i Fudd-dal Tai hybu annibyniaeth yn y gymuned a bod yn deg, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy ar yr un pryd.
6. Rydym yn cydnabod bod yr angen am dai â chymorth yn perthyn yn gyffredinol i ddau grŵp:
 - y rhai y mae angen lefel is o ofal personol a chymorth arnynt yn gyffredinol i'w helpu i aros yn y gymuned, a ddarperir yn aml mewn mathau mwy cymunedol a chyfarwydd o lety megis hostelau, llochesau, 'Foyers' a thai gwarchod pwrpasol;
 - y rhai y mae angen lefelau dwysach o ofal personol a chymorth arnynt yn aml i'w helpu i fyw yn y gymuned, y mae ganddynt yn aml anghenion mwy penodol o ran tai, na ellir eu diwallu mewn tai prif ffrwd neu dai â chymorth sy'n bodoli eisoes, ac a ddarperir yn aml mewn tai wedi'u hadeiladu, eu datblygu a/neu eu haddasu ar gyfer y tenant(iaid) unigol.

7. Yn achos y rhai yn y grŵp cyntaf, rydym yn cynnig talu'r Lwfans Tai Lleol ond gydag ychwanegiadau penodol a fydd yn parhau i gydnabod y costau uwch sy'n gysylltiedig â darparu'r math hwn o dai.
8. Yn achos y rhai yn yr ail grŵp, sy'n llai o faint, rydym yn cynnig darparu help ychwanegol, lle y bo angen, sy'n fwy na'r Lwfans Tai Lleol safonol. Ein cynnig yw na fydd yr help ychwanegol hwnnw yn cael ei benderfynu gan y rhai sy'n prosesu ceisiadau am fudd-daliadau mwyach ond gan swyddogion mewn awdurdodau lleol sy'n meddu ar brofiad yn y maes hwn, neu sy'n gallu trafod â phobl ag arbenigedd o'r fath. Mae'n bosibl y gellid gwneud penderfyniadau o'r fath yn ystod y broses gomisiynu ar gyfer tai â chymorth a thai arbenigol, y mae'r unigolyn yn cymryd rhan neu'n cael ei gynrychioli ynddi.
9. Mae'n bwysig nodi'n glir nad torri gwariant yn y sector hwn yw nod y diwygiadau hyn ond gwella'r ffordd y caiff ei drefnu. Yn wyneb gwariant cynyddol yn y maes hwn, mae'n bwysig canfod y cydbwysedd cywir rhwng diogelu rhenti rhesymol a rheoli gwariant mewn modd effeithiol i drethdalwyr. O ganlyniad, bydd angen i unrhyw newidiadau fod yn gyffredinol niwtral o ran cost.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym yn awyddus i gael eich barn ar y materion a drafodwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Dyma restr o gwestiynau yr hoffem gael eich barn arnynt yn benodol.

Tai â chymorth confensiynol

- Cwestiwn 1. Pa fathau o dai â chymorth sydd ar gael a sut y dylid eu nodi a'u grwpio yn eich barn chi?
- Cwestiwn 2. A ddylid pennu cyfraddau daearyddol gwahanol ar gyfer pob math o dai â chymorth prif ffrwd, megis hostelau, tai gwarchod a llochesau, neu a ddylid cymhwyso un gyfradd?
- Cwestiwn 3. Pa fathau o weithgareddau neu adnoddau ychwanegol sy'n nodweddiadol o dai â chymorth a sut y dylid eu meintoli mewn swm wythnosol fesul uned?
- Cwestiwn 4. A ddylid defnyddio ychwanegiad cyfradd safonol sy'n cynrychioli'r costau ychwanegol nodweddiadol i gyfrifo swm ar gyfer yr help ychwanegol neu a ddylid defnyddio dull gwahanol? Nodwch fanteision eich opsiwn dewisol.

Tai unigol arbenigol

- Cwestiwn 5. Pa fathau o dai â chymorth a fyddai'n perthyn i'r grŵp hwn a sut y dylid eu nodi a'u grwpio yn eich barn chi?
- Cwestiwn 6. Pa fathau o gostau tai uwch sy'n nodweddiadol o'r math hwn o dai â chymorth, sy'n fwy na chostau addasiadau neu gyfarpar arbenigol y mae ffynonellau ariannu eraill ar gael ar eu cyfer, a sut y dylid mesur y rhain?
- Cwestiwn 7. A fyddai'n well ariannu'r help ychwanegol i'r rhai ag anghenion unigol iawn o ran tai o arian ar wahân wedi'i weinyddu gan awdurdodau lleol, sydd ag arbenigedd o ran tai a/neu ofal yn y gymuned.
- Cwestiwn 8. Pa haen o lywodraeth leol a ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid dyrannu help ychwanegol? A pha adran o fewn awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i reoli'r gwaith o ddyrannu'r arian hwn, yn eich barn chi?
- Cwestiwn 9. A ddylid defnyddio dull gwahanol? Os felly, eglurwch.
- Cwestiwn 10. Sut y gellir gwneud yr arian yn ddigon hyblyg ar gyfer llwythi achosion amrywiol a lefelau amrywiol o alw heb ei wneud yn anghyfyngedig na chynyddu'r gost fesul uned o gymharu â'r system bresennol?

Diwygiadau ehangach

Cwestiwn 11. A ddylid rhoi ystyriaeth fwy sylfaenol i gostau tai o fewn cyd-destun ehangach drwy dynnu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â thai â chymorth allan o Fudd-dal Tai yn gyfan gwbl a'u gweinyddu yn lleol yn yr un modd â Chyllidebau Personol?

Cwestiwn 12. Ai dim ond ar gyfer y rhai sy'n byw mewn eiddo mwy arbenigol neu eiddo wedi'i addasu y byddai'r math hwn o ddull gweithredu yn briodol?

Tai â chymorth darparwyr cofrestredig a landlordiaid cymdeithasol

Cwestiwn 13. A ddylid trin tai â chymorth darparwyr cofrestredig yn yr un modd â'u tai prif ffrwd, at ddibenion Budd-dal Tai?

Cwestiwn 14. Beth yw eich barn ar y broses arfaethedig o gategoreiddio tai â chymorth; a oes sail gadarn i drin y tri math hyn o dai â chymorth yn wahanol? (darparwyr cofrestredig, y rhai y gellir eu nodi yn ôl y math o lety y maent yn byw ynddo a'r rhai ag anghenion unigol dwysach)

Cwestiwn 15. A yw'r broses atgyfeirio gan swyddogion rhent yn ddigonol i sicrhau mai dim ond costau llety â chymorth 'rhesymol' a delir yn y sector darparwyr cofrestredig? A oes ffyrdd y gellir gwella'r broses atgyfeirio gan swyddogion rhent?

Trefniadau trosiannol

Cwestiwn 16 Sut y dylid cyflwyno'r rheolau newydd yn eich barn chi?

Hyd yr ymgynghoriad

Mae'r cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 19eg Gorffennaf 2011 ac yn para tan 9fed Hydref 2011.

Trefniadau ymgynghori

Anfonwch eich ymatebion i'r ymgynghoriad i:

Housing Benefit Team (Supported housing consultation)

Department for Work and Pensions

1st Floor, Caxton House

Tothill Street

London SW1H 9NA

E-bost: HB.supportedhousing@dwp.gsi.gov.uk

Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn 9fed Hydref 2011. Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, a sut y cafwyd barn yr aelodau.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, neu os hoffech gael y ddogfen ymgynghori mewn fformat penodol, er enghraifft, print bras, Braille neu fformat sain, cysylltwch â:

Dave Jones

Department for Work and Pensions

1st Floor, Caxton House

Tothill Street

London SW1H 9NA

E-bost: Dave.Jones@dwp.gsi.gov.uk

Rydym wedi anfon y ddogfen ymgynghori hon at nifer fawr o bobl a sefydliadau sydd eisoes wedi bod yn ymwneud â'r gwaith hwn neu sydd wedi dangos diddordeb ynddo. Rhannwch y ddogfen hon ag unrhyw un y credwch y bydd am ymwneud â'r ymgynghoriad hwn, neu dywedwch wrthym amdanynt.

Rhyddid gwybodaeth

Gall fod angen i ni drosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, ei chyhoeddi mewn crynodeb o'r ymatebion a gafwyd, a chyfeirio ati yn yr adroddiad ymgynghori a gyhoeddir.

Gall unrhyw wybodaeth yn eich ymateb gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os gwneir cais amdani o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy roi gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus, deallir eich bod yn cytuno i'w datgelu a'i chyhoeddi. Os nad ydych yn cytuno, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth bersonol a roddir, neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os hoffech i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn sicrhau y gwnawn hyn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: [Ministry of Justice: Fol Guidance](#)

Meini prawf yr ymgynghoriad

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â [Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori](#) a'r saith maen prawf ymgynghori a geir ynddo:

- **Pryd y dylid Ymgynghori.** Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar adeg pan fo modd dylanwadu ar y canlyniad.
- **Hyd ymarferion ymgynghori.** Fel arfer, dylai ymgynghoriadau bara o leiaf 12 wythnos gan ystyried amserlenni hwy lle y bo'n ymarferol ac yn synhwyrol.
- **Eglurder o ran cwmpas ac effaith.** Dylai dogfennau'r ymgynghoriad fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, yr hyn a gynigir, faint o ddylanwad y gellid ei gael a chostau a buddiannau disgwylidig y cynigion.
- **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori.** Dylai'r ymgynghoriadau fod yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir eu cyrraedd, a dylent gael eu targedu'n glir.
- **Baich ymgynghori.** Dylid sicrhau bod ymgynghoriadau mor ddidrafferth â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac annog ymgynghoreion i gyfrannu.
- **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori.** Dylai'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi'n ofalus a dylid rhoi adborth clir i'r rhai sydd wedi cyfrannu yn dilyn yr ymgynghoriad.
- **Y gallu i ymgynghori.** Dylai'r swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r profiad.

Adborth ar yr ymgynghoriad hwn

Rydym yn gwerthfawrogi adborth ar ba mor dda rydym yn ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses o gynnal yr ymgynghoriad hwn, er enghraifft, sut y gellid ei wella, ond nid ar y materion a godwyd, cysylltwch â'n Cydlynnydd Ymgynghoriadau:

Roger Pugh
DWP Consultation Coordinator
1st floor, Crown House
2, Ferensway, Hull HU2 8NF
roger.pugh@dwp.gsi.gov.uk

Dywedwch wrthym yn arbennig os credwch nad yw'r ymgynghoriad yn bodloni Cod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid gwella ein proses ymgynghori ymhellach.

